Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Ymweld â ni:

## Materion synhwyraidd i bobl ag awtistiaeth

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae’r Senedd, fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyflwyniad

Rydym yn gobeithio y bydd eich ymweliad â Senedd Cymru yn gyfforddus.

Cyn i chi gyrraedd, rydym am eich hysbysu o rai pethau a allai achosi trallod.

Mae gan Senedd Cymru - y Senedd, y Pierhead a Thŷ Hywel. Dim ond os byddwch gydag aelod o’n staff y byddwch yn cael mynd i rai mannau.

# Diogelwch

Mae gan y Senedd a Thŷ Hywel weithdrefn ddiogelwch ar waith.

Mae'n rhaid i chi fynd drwy archwiliad diogelwch. Rhaid i chi ddilyn cyfarwyddiadau'r staff diogelwch.

Os ydych chi neu rywun yn eich grŵp ar y sbectrwm awtistiaeth ac yn ei chael yn anodd ciwio neu archwiliadau diogelwch, gofynnwch i siarad â staff diogelwch a all drefnu eich bod yn mynd drwy'r archwiliad diogelwch yn gyflym.

Dylech ganiatáu digon o amser i fynd drwy'r gwiriadau diogelwch.

Mae'r ardal diogelwch yn fan swnllyd sy'n gallu mynd yn brysur ac yn aml bydd yn ofynnol i giwio yno.

Gofynnir i chi roi eich bagiau drwy beiriant pelydr-x a chyda phob eitem o ddeunydd metel a thrydanol - allweddi, darnau arian, cliniaduron, ffonau symudol ac ati, rhaid eu tynnu o'ch pocedi a'u rhoi yn eich bag neu mewn hambwrdd a ddarperir.

Dychwelir eich eitemau i chi ar yr ochr arall i'r peiriant.

Bydd gofyn i chi dynnu eich côt os ydych yn gwisgo un.

Bydd gofyn i chi dynnu eich gwregys os ydych yn gwisgo un.

Bydd yn ofynnol i chi gerdded drwy fwa datgelu metel sy'n gwneud sŵn os bydd yn darganfod rhywbeth metel. Os digwydd hynny, bydd staff yn defnyddio canfodydd a gaiff ei ddal â llaw, ac yn symud o gwmpas eich corff i gael gwybod beth sydd wedi achosi i'r larwm seinio. Ni ddylai'r synhwyrydd gyffwrdd eich corff. Bydd y canfodydd yn gwneud sŵn i ddangos yr hyn sydd wedi achosi i'r larwm seinio.


Mynedfa
Entrance
Croeso
Welcome






GARRETT

# Synau

Gall ein hadeiladau gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel y gallant fod yn brysur iawn ac yn swnllyd.

Pan fydd y Senedd ar ddydd Mawrth a dydd Mercher gallwch ddisgwyl clywed sŵn yr Alwad i gloch y Cyfarfod Llawn am 13.20 a 13.25 i ffonio Aelodau i'r Siambr i bleidleisio.

Os ydych chi'n hyper sensitif i sain, efallai y byddwch yn dymuno cynllunio eich ymweliad er mwyn osgoi'r Alwad i gloch y Cyfarfod Llawn.

Bydd y larwm tân yn seinio: yn Thŷ Hywel bob dydd Llun am 9.00; yn y Senedd ar fore Llun, Mawrth, Mercher am 8.30; yn y Pierhead bob dydd Llun am 9.30.

Os clywch chi'r larwm tân ar unrhyw adeg arall, bydd aelod o staff yn dweud wrthych beth i'w wneud a ble i fynd.

Mae'r lifft yn gwneud sŵn - mae'n siarad ac yn gwneud sŵn traw uchel pan fydd yn cyrraedd y llawr cywir.

Mae sŵn wrth i'r ffenestri agor ac agosáu'n awtomatig. Gwneir hyn er mwyn cynnal tymheredd cyson yn yr adeilad.

Mae sŵn y troli bwyd wrth iddo gael ei wthio ar draws llawr y llechi yn gallu atseinio'n uchel iawn drwy'r adeilad. Mae'n swnio fel banging o lestri fel platiau a chwpanau.

# Mannau

Mae gan ein hadeiladau rai nodweddion yr hoffech eu hosgoi neu fod yn ymwybodol ohonynt yn ystod eich ymweliad.

Efallai y bydd rhai pobl sy'n sensitif i uchder yn teimlo'n benysgafn wrth edrych dros y balconïau ym mhob un o'n hadeiladau.

Mae ochrau'r lifft yn wydr y mae modd gweld drwodd ac fe all hyn eich gwneud i chi deimlo’n anghyfforddus os ydych chi'n ofni uchder.

Gall fod cyferbyniad mawr mewn golau wrth i chi fynd i mewn i rai ystafelloedd. Mewn rhai ystafelloedd, efallai y bydd y golau yn newid tra byddwch yn yr ystafell.

# Cyffwrdd

Mae gan ein hadeiladau lawer o weadau gwahanol fel pren, carreg, a metel y gallech fod eisiau cyffwrdd â nhw yn ystod eich ymweliad.

Efallai y byddwch chi'n gweld rhywfaint o gelf ar y waliau. Ni chaniateir i chi gyffwrdd â'r gelf hon.

Mae ysgwyd dwylo gyda phobl yn arfer cyffredin y gellir ei ddisgwyl. Gallwch roi gwybod i ni os nad ydych am ysgwyd llaw.

# Gwybodaeth arall

Mae ein ystad yn enghraifft o hygyrchedd i bawb.

Mae amrywiaeth o gyfleusterau toiledau sy’n addas at anghenion gwahanol bobl sy'n ymweld â'r adeilad.

Mae ein Hystafell Newid yn y Senedd yn cynnwys gwely newid i oedolion, peiriant codi, a thoiled hygyrch gyda lle trosglwyddo o’r dde ac o’r chwith.

Mae gennym doiledau hygyrch i gadeiriau olwyn yn y Senedd a Thŷ Hywel.

Mae toiled hygyrch ar gael yn ein hystafell newid i fabanod yn y Senedd hefyd.

Mae system dolen sain ar gael i bobl sy'n defnyddio cymorth clyw.

Os ydych chi, tra'ch bod chi'n ymweld ag ystâd y Senedd, rydych chi angen rhywle tawel, siaradwch ag aelod o staff a fydd yn mynd â chi i ystafell dawel, lle gallwch eistedd a gorffwys nes eich bod chi'n teimlo'n well.

Gallwch archebu taith o’r Senedd ymlaen llaw neu wybod beth sy’n digwydd ar ddiwrnod eich ymweliad trwy ffonio ein llinell Wybodaeth ac Archebu ar **0300 200 6565** neu **cysylltu@senedd.cymru**.

# Cysylltwch â ni

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau, neu a hoffech chi ddysgu mwy am ein gwaith?

Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod neu dewch i'n gweld ni ym Mae Caerdydd i siarad â rhywun wyneb yn wyneb.


**www.senedd.cymru**

**cysylltu@senedd.cymru**

**0300 200 6565**

**@SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1SN**